

## Cyngor Cymuned Cerrigydrudion

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 12fed Awst 2019

Presennol - Ffuon Williams, Cadeirydd, Guto G Jones, John D Jones, Einion Edwards, Prys Ellis, Menai Hughes, Maria Roberts, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau , Ieuan Jones, Cyng Peter Lewis.

Datgan diddordeb - Cafwyd datganiad o ddiddordeb gan Guto Jones yng nghofnod [1.6] a gadawodd y cyfarfod tra bu'r mater dan sylw.

Cofnodion -Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 2ail Orffennaf 2019.

Materion yn Codi

#### [1] Strategaeth Hiraethog

Croesawyd Eirian Jones cydlynedd y strategaeth i'r cyfarfod a chafwyd amlinelliad ganddi o'r sefyllfa ddiweddar ynglŷn â ffermydd gwynt y Brenig a Chlocaenog.

I geisio gofalu fod y gymuned gyfan yn ymwybodol o'r canllawiau ayb penderfynwyd galw cyfarfod gydag aelodau pwyllgor y ganolfan mor fuan â phosib yn mis Medi.

#### [1.1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol.

#### [1.2] Coed Mynwent Ucha'r Eglwys/ Tocio'r Coed

Nodwyd bod trefniadau wedi eu gwneud i docio'r coed.

#### [1.3] Pont Pentrellyncymer

Cytunodd Einion Edwards gysylltu gyda'r clerch ynglŷn â'r gwaith atgyweirio

#### [1.4] Arwydd Stryd King / Yr Ysgol

Dywedodd y clerch nad oedd gair pellach wedi ei dderbyn gan y Cyngor Sir [Will Roberts] ynglŷn â'r posibilrwydd addasu'r arwydd ar gyfer lleoliad gyferbyn a'r ysgol. Y clerch hefyd i wneud ymholiadau ynglŷn â chost arwydd newydd a hefyd gosod mesurau ar y ffordd i arafu traffig.

#### [1.5] Cais Helen Williams / Cae Llwyd

Eglurodd y clerch nad oedd wedi cael cyfle i gael gair gyda Helen Williams, nad oedd y Cyngor yn barod i werthu rhan o'r cae.

Y brif Agenda

#### [1.6] Materion Cynllunio

Trawsnewid i greu lletyau gwyliau i'w gosod a dymchwel sied.

Cefnhirfynydd Isa', Glasfryn, Cerrig-y-Drudion  
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[1.7] Swydd y Clerc

Dywedodd y clerc fod gan Rhian Ellis, Plas Hafod y Maidd ddiddordeb i ymgymryd y swydd.  
Penderfynwyd gwahodd Rhian i gyfarfod nesaf y Cyngor i drafod dyletswyddau a.y.b.

[1.8] Coeden Sycamorwydden ger Maelor

Deallwyd fod perchnogion tŷ Maelor yn pryderu fod canghennau'r goeden yn agos i'r tŷ. Y clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglyn a'r mater.

[1.9] Chwyn ar y Llwybr gyferbyn ar Shelter

Y clerc i gysylltu gyda' adran priffyrdd i geisio cael tacluso'r llwybr.

[2] Gwteri

Deallwyd fod y gwteri wedi tagu o flaen y feddygfa a hefyd yn y mynediad i Ystâd Cae Llwyd. Y clerc i ddilyn y mater ymlaen.

[2.1] Parcio gyferbyn a Glascoed/ Erw Fair

Deallwyd bod trafferthion o ganlyniad moduron yn parcio gyferbyn a mynediad y ddau eiddo uchod, yn enwedig yn ystod tymhorau 'r ysgol ac achlysur yn y ganolfan.  
Y clerc i gysylltu gydag adran briffyrdd y Cyngor Sir i geisio cyngor ynglun a'r mater.

Cadeirydd \_\_\_\_\_